



Trawsnewid y tirlun tai yng Ngogledd Cymru

Mae Creu Menter yn gwneud cynnydd mawr o ran ei genhadaeth i hyrwyddo tai cynaliadwy yng Ngogledd Cymru trwy gyfrwng ei ffatri Datrysiadau Modiwlaid yn y Rhyl. Mae'r trefniant cydweithio hwn gyda Beattie Passive yn chwyldroi'r modd y caiff cartrefi modiwlaid Passivhaus eu hadeiladu ledled y rhanbarth, gan wneud defnydd o dechnegau a deunyddiau adeiladu arloesol. Mae'r dulliau adeiladu a'r deunyddiau arloesol hyn yn creu cartrefi hynod effeithlon ac aerglos, gan arwain at ddefnyddio cyn lleied ag 80% o'r ynni sy'n angenrheidiol i gynhesu tai traddodiadol. Nid yn unig y mae hyn yn ymdrin â phryderon amgylcheddol, ond mae hefyd yn mynd i'r afael â'r costau ynni cynyddol sy'n wynebu perchnogion cartrefi.

Un o'r nodweddion anhygoel sy'n perthyn i ddyluniadau Passivhaus yw eu hyblygrwydd a'u gallu i ddarparu amrywiaeth eang o arddulliau a meintiau. Gellir eu teilwra'n benodol i weddu i ddewisiadau unigol ac i ddarparu ar gyfer anghenion rhanbarthol, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn berffaith ag anghenion y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Ymhellach, mae cartrefi Passivhaus yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch, ac maen nhw'n cynnig amddiffyniad uwch rhag sŵn, tân, llifogydd, a hyd yn oed nwy Radon – sef elfennau sy'n cyfrannu at amgylchedd byw diogel a chyfforddus.

Efallai mai'r agwedd fwyaf diddorol ar gartrefi Passivhaus yw eu hymrwymiad



diwyro i gynaliadwyedd. Cânt eu dylunio er mwyn cyflawni lleihad posibl o 100% mewn allyriadau carbon deuocsid, gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy a chan sicrhau ôl troed carbon isel yn ystod y broses adeiladu. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ymdrech fyd-eang i fynd i'r afael â newid hinsawdd a lleihau allyriadau nwyon t gwydr.

Yn ychwanegol at eu manteision amgylcheddol, mae adeiladau Passivhaus yn defnyddio deunyddiau sydd wrth law yn hwylus, a chaiff y fframiau pren eu cydosod yn ofalus yn y ffatri yn y Rhyl. Mae'r dull arloesol hwn yn sicrhau effeithlonrwydd, ond mae hefyd yn arwain at leihau'r ôl troed carbon cyffredinol. Caiff y dull hwn ei ddefnyddio eisoes fel rhan o brosiect digartrefedd yn Wrecsam – sef prosiect T Nos – lle caiff 20 o fflatiau un ystafell wely eu hadeiladu er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd yn yr ardal.

Mae'r dyfodol yn addawol i'r bartneriaeth hon, oherwydd bydd ganddi ran hollbwysig yn y

dasg o adeiladu cartrefi ar gyfer ecoddatblygiad safon A helaeth ym Mhensarn, Abergele – cyfanswm o 128 o gartrefi. Y tu hwnt i ddarparu cartrefi effeithlon o ran ynni, bydd y fenter hon yn cyfrannu'n fawr at werth cymdeithasol y rhanbarth trwy greu prentisiaethau a hyfforddeiaethau, gan gyfoethogi'r gweithlu lleol a meithrin cysylltiadau â'r gymuned.

Mae ffatri Datrysiadau Modiwlaid Creu Menter yn gam mawr ymlaen o ran meithrin dyfodol mwy cynaliadwy i Ogledd Cymru. Bydd y cartrefi Passivhaus hyn, gyda'u heffeithlonrwydd ynni, eu hyblygrwydd a'u hymwybyddiaeth amgylcheddol ddiwyro, yn trawsnewid tirlun tai Gogledd Cymru, gan wasanaethu'r gymuned â'r blaned.

CREU
MENTER
CREATING
ENTERPRISE

